

Hyfforddiant Sylfaenol Cymru Gyfan ar
Ymwybyddiaeth o Ddiogelu **Fersiwn 3**

Cynllun gwers a manylion y cyflwynydd





Amseru	Bwriad	Cynnwys a gweithgaredd	Adnoddau a chyfeiriadau at y llyfr gwaith
10 mun	<p>Cyflwyniadau, trosolwg o'r diwrnod a disgwiliadau, a chanlyniadau dysgu.</p>	<p>Gweithdrefnau, disgwiliadau o ran parch, cyfrinachedd, cyfranogiad, cysur, diogelwch, gofal ac amseru.</p> <p>Gwybodaeth glir am sut i ddelio â datgeliad neu bryderon a godir drwy godi ymwybyddiaeth.</p> <p>Byddai contract grŵp yn adnodd da yma er mwyn atgyfnerthu cyfrinachedd, ffiniau ac ati.</p> <p>Bydd angen cynnwys manylion cofrestru a sefydlu'r sefydliad dyfarnu yma os ydych yn defnyddio'r llyfr gwaith a'r achrediad.</p> <p>Deilliannau dysgu / cyd-destun / gwybodaeth am Fframwaith sefydlu Cymru gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol a Dyfarniad Lefel 2 mewn Sefydlu Gofal Cymdeithasol i Gymru (uned Rhaglen Sefydlu ar Ddiogelu ym maes Gofal Cymdeithasol yng Nghymru). Deilliannau dysgu yn seiliedig ar yr uned. Tynnu sylw at weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.</p>	<p>Llyfrau gwaith AWIF, llyfrau asesu'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol. Canllawiau lleol i hwyluswyr, gwybodaeth am gymorth neu atgyfeiriadau pellach.</p>
20 mun	<p>Cynhesu / torri'r iâ.</p> <p>Gweithgaredd 1 - Egwyddorion diogelu - meddwl am eu hegwyddorion a'u gwerthoedd eu hunain.</p> <p>Yn cynnwys - Cyfiawnhau eu safbwynt eu hunain, gwrando a thrafod ag eraill.</p>	<p>Geiriau ar gardiau ar y byrddau. Dylid gofyn i'r cyfranogwyr weithio fel grŵp i'w rhoi yn eu trefn; dylai pawb drafod a chytuno ar y rhai pwysicaf i'r rhai lleiaf pwysig ym maes diogelu, o'u safbwynt nhw a safbwynt y lleoliad.</p> <p>Dylai'r hwylusydd ddod â'r egwyddorion pwysicaf a lleiaf pwysig ynghyd a'u cysylltu a dylai ddangos sut y gallant fod yn rhan o'r ffordd y bydd pobl yn ymddwyn ac yn ymateb yn ystod y sesiwn hon.</p> <p>Gellir gwneud cysylltiadau â <i>Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014</i> a'r Codau Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol yma. Gellir defnyddio codau 'mewnol' neu godau perthnasol eraill yma. Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi cyfle i bawb gyflwyno eu hunain yn ystod y gwaith grŵp.</p>	<p>Cardiau geiriau. Gyda chardiau gwag ar gyfer cyd-destun y lleoliad os yw'n briodol.</p> <p><i>Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol</i> drwy sleid PowerPoint.</p>

Amseru	Bwriad	Cynnwys a gweithgaredd	Adnoddau a chyfeiriadau at y llyfr gwaith
30 mun	<p>Gweithgaredd 2 - Senarios byr ynglŷn â beth sy'n dderbyniol.</p> <p>Yn cynnwys - Adeiladu ar brofiadau a gwerthoedd personol, ac ystyried safbwyntiau pobl eraill.</p> <p>Tynnir sylw at drothwyon risg, a Chaiff Syniadau ynghylch 'sy'n wynebu risg' eu harchwilio.</p>	<p>Pawb i gael cerdyn ydy neu nac ydy. Mae'r cydlynnydd yn darllen rhwng pump a deg datganiad sy'n addas i'r grŵp dysgwyr o'r rhestr o senarios byr a bydd pawb yn codi'r cerdyn ydy neu nac ydy er mwyn ateb y cwestiwn 'ydy hyn yn dderbyniol?' neu 'ydy'r plentyn / oedolyn hwn yn wynebu risg?'</p> <p>Y diben yw ysgogi trafodaeth a chynyddu ymwybyddiaeth cyfranogwyr o'u barn a'u credoau eu hunain a phobl eraill mewn perthynas â'r penderfyniadau hyn. Tynnir sylw at rai materion pwysig yn y senarios.</p> <p>Bydd angen arweiniad ar rai cyfranogwyr. Dylid pwysleisio'r thema diogelu ac amheuan nad ydynt efallai mor glir â 'cham-drin/esgeuluso/niweidio' neu amddiffyn.</p> <p>Dylid annog trafodaeth a bydd yr atebion yn oddrychol ond dylai'r cyfranogwyr allu egluro eu safbwyntiau / rhesymau.</p>	<p>Senarios byr a chardiau ydy / nac ydy.</p>
30 mun	<p>Gweithgaredd 3 - Cytuno ar ddiffiniadau o ddiogelu ac 'syn wynebu risg'.</p> <p>Yn cynnwys - meddwl am gysyniadau personol a safbwyntiau gwahanol pobl eraill. Trafod a derbyn gwahaniaethau.</p> <p>Tynnu sylw at newidiadau o ganlyniad i <i>Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014</i>.</p>	<p>Dylid egluro bod angen iddynt baratoi diffiniad o'r naill derm a'r llall mewn brawddeg neu ddwy ar eu pen eu hunain cyn eu rhannu â'r grŵp. Yna dylai'r grŵp gytuno ar un diffiniad i'w adrodd yn ôl. Dylid tynnu sylw at y gwahaniaethau rhwng y ddau derm, y camau gweithredu cadarnhaol y gellir eu cymryd er mwyn diogelu a'r nodweddiad hanfodol.</p> <p>Dylid tynnu sylw at y cyfrifoldebau cadarnhaol a'r bwriad i greu ymarfer a gwasanaethau diogel er mwyn diogelu. Mae diogelu yn ehangach na'r ffocws hanfodol ar y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf ac amddiffyn pobl rhag cael eu cham-drin, eu hesgeuluso neu eu niweidio.</p> <p>Sôn am themâu a dyletswyddau trosfwaol <i>Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014</i> (o Hyb Gwybodaeth a Dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru). Cyflwyno'r cysyniad o lesiant a gellid trafod y berthynas rhwng lesiant ac 'sy'n wynebu risg' / lles mewn trafodaeth grŵp e.e. gofyn i'r grŵp am syniadau am y gwahaniaethau. Mae lles neu risg yn rhan o lesiant ond mae hwn yn gysyniad ehangach a mwy unigol ei natur. Ni ddylai'r ffocws ar lesiant atal pobl rhag meddwl am y risgiau a chymryd camau i ddiogelu.</p>	<p>Sleidiau PowerPoint am ddiogelu, llesiant a'r diffiniadau o oedolyn sy'n wynebu risg a phlentyn sy'n wynebu risg yn y <i>Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014</i>.</p>



Amseru	Bwriad	Cynnwys a gweithgaredd	Adnoddau a chyfeiriadau at y llyfr gwaith
30 mun	<p>Gweithgaredd 3 - parhad</p>	<p>Nodi dyletswyddau newydd. Rhannu diffiniadau <i>Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014</i> o 'oedolyn sy'n wynebu risg' a 'plentyn sy'n wynebu risg' drwy PowerPoint. Mae rhestr termau'r Ddeddf yn diffinio diogelu fel a ganlyn:</p> <p><i>Os bydd yn ymddangos bod anghenion unigolyn yn rhai fel bod dyletswydd ar yr awdurdod lleol i ymarfer ei swyddogaethau i amddiffyn a diogelu'r person rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso (ac yn achos plentyn: rhag niwed neu'r risg o niwed) rhaid i'r awdurdod lleol weithredu ar y wybodaeth hon yn syth a heb oedi.</i></p> <p><i>Rhaid i awdurdodau lleol benderfynu a fydd anghenion yr unigolyn yn gofyn am ymarfer unrhyw swyddogaeth sydd ganddo o dan Ran 7 (Gofal a Goruchwyllo) neu Ran 5 (Amddiffyn Plant) o Ddeddf Plant 1989 neu o dan y Ddeddf hon ac os felly, dylai'r awdurdod lleol weithredu ar ei union a heb oedi.</i></p>	<p>Gallai'r dysgwyr fynd ati i ysgrifennu diffiniad o ddiogelu yn eu llyfr gwaith yng nghwestiwn 1 adran 1.</p>
30 mun	<p>Gweithgaredd 4 - Ffactorau sy'n golygu bod rhywun yn wynebu risg ac yn agored i niwed.</p> <p>Yn cynnwys - ystyried safbwyntiau a phrofiadau gwahanol, asesu eu cysyniadau eu hunain, deall bod pawb yn wynebu risg ac yn agored i niwed ar adegau.</p>	<p>Trafod mewn grwpiau/parau/grŵp cyfan. Dangosir rhestr o ffactorau ar sleid PowerPoint.</p> <p>O'r rhestr o ffactorau sy'n golygu bod rhywun yn wynebu risg ac yn agored i niwed, pa rai o'r rhain a allai fod yn berthnasol i chi yn y gorffennol, nawr neu yn y dyfodol?</p> <p>Gan feddwl am yr hyn sy'n golygu ein bod yn wynebu risg ac yn agored i niwed, herio'r syniad mai dim ond rhai pobl sy'n wynebu risg neu sy'n agored i niwed.</p> <p>Edrychwch ar y ffactorau mwyaf cyffredin. Gofynnwch pam ac os yw'n briodol, cwblhewch gwestiwn 2 adran 2 yn y llyfr gwaith.</p> <p>Gellir newid ffocws y gweithgaredd os mai dim ond gyda phlant a phobl ifanc neu oedolion y mae'r cyfranogwyr yn gweithio. Gellir defnyddio gweithgaredd llun i ddangos creadigrwydd e.e. tynnu llun 'afon bywyd' sy'n dangos y prif adegau y mae pobl yn wynebu risg neu'n agored i niwed.</p>	<p>Rhestr barod ar PowerPoint o ffactorau sy'n golygu bod rhywun yn wynebu risg ac yn agored i niwed.</p> <p>Os yw'n briodol, cwblhau cwestiwn 2 adran 2 yn y llyfr gwaith.</p>

Amseru	Bwriad	Cynnwys a gweithgaredd	Adnoddau a chyfeiriadau at y llyfr gwaith
60 mun	<p>Gweithgaredd 5 - Trosolwg o categorïau, arwyddion a symptomau.</p> <p>Herio syniadau ynglŷn â phwy sy'n cam-drin, pryd a ble.</p> <p>Dod yn fwy cyfarwydd â pholisïau a gweithdrefnau Cymru a <i>Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014</i>.</p>	<p>Darllen drwy ddiffiniadau o categorïau <i>Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014</i> ar sleidiau PowerPoint. Tynnu sylw at gyfrifoldebau o dan <i>Ddeddf Troseddau Difrifol 2015</i>.</p> <p>Mae pob grŵp yn cael un categori o gamdriniaeth, ac mae un yn cael esgeulustod (gofalwch fod pob categori yn cael sylw). Pob grŵp i nodi dangosyddion ar y ffurflen a roddir, ar siart troi neu yn adran 2.1 eu llyfrau gwaith er mwyn eu hadrodd yn ôl i'r prif grŵp.</p> <p>Os oes unrhyw fylchau, dylid gofyn i'r grŵp ehangach yn gyntaf ac wedyn bydd yr hwylusydd yn amlygu / llenwi unrhyw fylchau. Mae'n bwysig cael y grwpiau i ddeall sut mae'r 'categorïau' yn gorgyffwrdd a sut y mae fwyaf tebygol y bydd rhywun yn profi ac yn cael ei gofrestru o dan sawl math o gamdriniaeth ac esgeulustod.</p> <p>Yn eu grwpiau unwaith eto, dylid gofyn iddynt ble gallai'r gamdriniaeth/esgeulustod/niwed ddigwydd a phwy allai fod yn cam-drin yn y categori hwn?</p> <p>Unwaith eto, rhoi adborth i'r grŵp cyfan gan edrych ar yr amrywiaeth o ymatebion a bydd yr hwylusydd yn llenwi unrhyw fylchau.</p> <p>Mae'n bwysig sicrhau bod cam-drin sefydliadol a cham-drin wedi'i drefnu, trais domestig, priodas dan orfod, troseddau casineb, troseddau cyfeillio, anffurfio organau cenhedlu benywod (female genital mutilation (FGM)), camfanteisio'n rhywiol a chaethwasiaeth fodern yn cael eu hystyried.</p> <p>Mae'r sleidiau'n wag fel y gellir cynnwys ffeithiau a ffigurau lleol/cenedlaethol, a bydd angen dod o hyd i'r rhain e.e. Llywodraeth Cymru</p> <p>gov.wales/docs/statistics/2014/14112-5-local-authority-child-protection-registers-2014-en.pdf (Saesneg yn unig)</p> <p>gov.wales/docs/statistics/2015/15021-7-protection-vulnerable-adults-2013-14-en.pdf (Saesneg yn unig)</p> <p>neu'r NSPCC</p> <p>www.nspcc.org.uk/services-andresources/research-and-resources/statistics/ (ddim yn benodol i Gymru)</p> <p>www.nspcc.org.uk/preventing-abuse/child-protectionsystem/wales/statistics/</p>	<p>Sleidiau PowerPoint gyda chrynodeb o'r prif categorïau o gamdriniaeth.</p> <p>Ffurflen i'r holl gyfranogwyr gofnodi arwyddion a symptomau (neu defnyddiwch gwestiwn 1 adran 2 yn y llyfr gwaith) neu siart troi.</p> <p>Defnyddio ffeithiau a ffigurau lleol/cenedlaethol os oes angen.</p>



Amseru	Bwriad	Cynnwys a gweithgaredd	Adnoddau a chyfeiriadau at y llyfr gwaith
20 mun	<p>Gweithgaredd 6 - Rhwystrau i nodi neu rannu honiadau ac amheuon o gamdriniaeth.</p> <p>Pŵer ac awdurdod; materion yn ymwneud â diogelu sefydliadol ac unigol.</p>	<p>Mewn grwpiau, dylid trafod “yn eich barn chi, pam nad yw achosion o gam-drin neu esgeuluso yn cael eu nodi a’u rhannu” gan un o’r canlynol; oedolion sy’n agored i niwed, plant a phobl ifanc, teulu a ffrindiau, staff / gwirfoddolwyr. Dylid cofnodi a rhannu syniadau.</p> <p>Dylai’r hwylusydd sicrhau bod popeth yn cael ei drafod drwy ddefnyddio’r daflen ar rwystrau.</p> <p>Neu, gellir hwyluso trafodaeth grŵp cyfan gan annog cyfraniadau.</p> <p>Cyflwyno siart llif yn dangos y ‘daith’ ddefnyddio a’i ddefnyddio i dywys dysgwyr drwy’r broses a’r gweithgareddau. Mae’r sleid yn dangos pa mor bwysig yw rôl a chyfranogiad pob person yn yn broses.</p>	<p>Taflen gyda mewnbwn ar rwystrau. Hyn yn cysylltu ag adran 3.5 y llyfr gwaith.</p>
30 mun	<p>Gweithgaredd 7 - Ystyried ffactorau ataliol a diogelu wrth adolygu ymarfer mewn achosion go iawn.</p>	<p>Mae grwpiau’n cael un astudiaeth achos go iawn neu mae pob grŵp yn cael enghraifft wahanol (sy’n briodol i’r grŵp dysgwyr) sy’n cynnwys ymchwiliadau pwysig fel Ysbyty Winterbourne View, Vanessa George, Harold Shipman, Ysbyty Canol Swydd Stafford, Ymchwiliad Bichard, Steven Hoskin, Victoria Climbie, Rochdale, Daniel Pelka, Keanu Williams, Ymgyrch Jasmine, Plentyn M a Phlentyn DS.</p> <p>Dylai’r rhain herio tybiaethau ynglŷn â phwy sy’n cam-drin, ble mae’r gamdriniaeth yn digwydd a phwy all gael ei gam-drin.</p> <p>Dylai’r cyfranogwyr ddarllen crynodebau o achosion a dylid gofyn iddynt pa ffactorau allweddol a fyddai wedi gwneud gwahaniaeth, yn eu barn nhw, i atal a rhoi terfyn ar y niwed neu’r cam-drin.</p> <p>Dylid tynnu sylw at ddiogelu, arferion da, gwaith rhyngasiantaethol a gwasanaethau diogel. Dylid cyfeirio at siart llif y daith ddiogelu</p> <p>Dylid gofyn i’r grŵp roi crynodeb o’u hastudiaeth / hastudiaethau achos a rhannu eu safbwyntiau. Mae croeso i weddill y grŵp gyfrannu. Efallai y bydd yr adroddiadau, yn enwedig adroddiad Baby P, yn peri cryn ofid i rai pobl.</p> <p>Gellir defnyddio DVDs yma hefyd os oes rhai ar gael, yn ogystal ag astudiaethau / adolygiadau achos lleol. Efallai y bydd yn bwysig tynnu sylw at faterion newydd drwy adolygiadau ymarfer lleol.</p>	<p>Crynodebau o astudiaethau achos/ adolygiadau ymarfer go iawn.</p> <p>Taflenni cofnodi gwag ar gyfer pob astudiaeth achos er mwyn nodi’r ffactorau a all fod wedi atal a stopio’r cam-drin.</p>

Amseru	Bwriad	Cynnwys a gweithgaredd	Adnoddau a chyfeiriadau at y llyfr gwaith
30 mun	<p>Gweithgaredd 8 - Ymateb i honiadau ac amheuon</p> <p>Gwrando ar yr unigolyn ac ar sefydliadau, ac ymateb i'r unigolyn a sefydliadau.</p> <p>Yn cynnwys cyfrinachedd, y cofnodion ysgrifenedig a chadw tystiolaeth.</p>	<p>Dylai grwpiau neu barau lunio rhestr – dylai hanner y grwpiau restru'r prif bethau 'i'w gwneud' a dylai'r hanner arall restru'r prif bethau 'na ddylid eu gwneud' os bydd rhywun y maent yn gweithio gydag ef neu'n ei gefnogi yn dechrau datgelu neu drafod niwed, esgeulustod neu gamdriniaeth.</p> <p>Bydd y grŵp sy'n rhestru'r pethau 'i'w gwneud' yn cydweithio â'r grŵp arall sy'n rhestru pethau 'i beidio â'u gwneud' er mwyn dysgu'r hyn y mae wedi'i ddarganfod wrth rannu a datblygu ei restr. Yna byddant yn newid rôl. Os bydd amser yn brin gellir rhoi adborth i'r grŵp cyfan.</p> <p>Dylai'r hwylusydd wrando ar yr hyn sy'n cael ei drafod a chanfod beth sydd wedi'i gynnwys neu ei hepgor, fylchau neu gellid defnyddio'r daflen barod i helpu gyda hyn. Gellid annog pobl i symud o gwmpas ac ymuno â grwpiau eraill er mwyn cymharu a rhannu eu rhestrau. Dylid tynnu sylw at eu cyfrifoldeb i gadw tystiolaeth. Dylid annog cyfranogwyr i gynnwys materion yn ymwneud â chyfrinachedd, dewis a chyfranogi yn benodol.</p>	<p>Taflenni yn nodi'r pethau y dylid eu gwneud ac na ddylid eu gwneud.</p> <p>Sleid wedi'i pharatoi ar gyfer disgwyliadau a gweithdrefnau lleol.</p> <p>Siart llif yn dangos y 'daith' ddiogelu.</p>
30 mun	<p>Gweithgaredd 9 - Cofnodi honiadau ac amheuon.</p>	<p>Mae unigolion yn cael enghraifft o gofnodion gwael am fater diogelu ac mewn parau, maent yn beirniadu'r hyn sydd wedi'i ysgrifennu ac yn nodi sut y gellid ei wella. Dylid darllen fersiwn well o'r cofnod.</p> <p>Bydd yr hyfforddwr yn cymryd un o bwyntiau allweddol pob pâr er mwyn llunio canllaw 'arfer da' ar siart troi ac yna bydd taflen o gofnodion da yn cael ei dosbarthu fel esiampI i'r cyfranogwyr ac fel y gallant gymharu. Rhoddir taflen 'cyngor defnyddiol' ar gyfer gwneud cofnodion da.</p>	<p>Enghreifftiau o gofnodion gwael a gwell ynglŷn â mater diogelu lle nodir yn glir mai rhai ffuglennol ydynt at ddibenion hyfforddi'n unig - fersiynau ar gyfer materion plant a phobl ifanc ac oedolion.</p> <p>Taflen 'cyngor defnyddiol' ar gyfer gwneud cofnodion da. Gellid cwblhau adran 3.2 yn y llyfr gwaith.</p>



Amseru	Bwriad	Cynnwys a gweithgaredd	Adnoddau a chyfeiriadau at y llyfr gwaith
Mewnbwn 20 mun	<p>Eich rôl a'ch cyfrifoldebau yn cynnwys rolau gwahanol asiantaethau ym maes diogelu gan gyfeirio at bolisi Cymru, canllawiau statudol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a deddfwriaeth allweddol ar gyfer plant ac oedolion.</p> <p>Dylid eu cynnwys mewn enghreifftiau er mwyn meithrin hyder a dod yn gyfarwydd â'r camau i'w cymryd.</p>	<p>Pam bod angen i chi wybod am y gweithdrefnau diogelu? Dylid gofyn y cwestiwn i'r grŵp cyfan. Mae angen i bawb sylweddoli bod angen iddynt wybod amdanynt a bod ganddynt gyfrifoldebau fel rhywun sy'n tynnu sylw at achosion ac mewn rhai asiantaethau y ddyletswydd i hysbysu o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.</p> <p>Gwybodaeth am deddfwriaeth gefndirol, polisïau a chanllawiau statudol ar y PowerPoint (gan roi rhagor o fanylion mewn taflenni ar gyfer plant a phobl ifanc ac oedolion).</p> <p>Dylid atgoffa'r grŵp bod cyfrifoldeb arnynt i dynnu sylw a hysbysu, a 'chwythu'r chwiban' – hyd yn oed yn achos cydweithiwr neu reolwr. Gellir tynnu sylw at Gôd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol Gofal Cymdeithasol Cymru.</p> <p>Beth yw'ch rôl chi? Defnyddiwch sleid am gyfrifoldebau a dulliau diogelu ac amddiffyn i grynhoi a hwyluso trafodaeth.</p>	<p>Sleidiau PowerPoint gyda mewnbwn ar ddeddfwriaeth allweddol, a pholisïau Cymru.</p> <p>Taflenni camau hanfodol ar ddeddfwriaeth allweddol a pholisïau Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc ac oedolion.</p> <p>Gellir cwblhau adran 1.2 ac 1.3 o'r llyfr gwaith yn unigol.</p> <p>Siart llif yn dangos y 'daith' ddiogelu.</p>
10 mun	<p>Gweithgaredd 10 - chwythu'r chwiban - gwybod beth i'w wneud ynghylch amheuon parhaus am niwed, camdriniaeth ac esgeulustod</p>	<p>Pa gamau y gallech eu cymryd pe bai gennych amheuon parhaus am niwed, camdriniaeth ac esgeulustod?</p> <p>Caiff y drafodaeth ei chadeirio gan yr hwylusydd. Y cyfranogwyr i feddwl. Gellir defnyddio'r sleidiau 'beth dylech ei wneud' a 'beth na ddylech ei wneud' i gadarnhau a rhoi sicrwydd i gyfranogwyr. Mae'r pethau y dylid ac na ddylid eu gwneud i'w gweld ar wefan Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Dylid cyfeirio at <i>Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998</i> (a gyflwynwyd er mwyn amddiffyn gweithwyr cyflogedig sy'n poeni am gamweithredu yn y gwaith ac sydd am 'chwythu'r chwiban'). Mae'r Ddeddf yn gymwys i'r rhan fwyaf o weithwyr cyflogedig ac yn cynnwys y rhai a gyflogir dros dro neu drwy asiantaeth. Gall gweithiwr cyflogedig sy'n cael ei erlid neu sy'n destun camwahaniaethu mewn unrhyw ffordd am ei fod wedi 'chwythu'r chwiban' (a elwir yn 'ddatgeliad gwarchoddedig') erlyn ei gyflogwr mewn tribiwnlys cyflogaeth.</p>	<p>Gweithdrefn chwythu'r chwiban fewnol os yw'n briodol ar gyfer y lleoliad/sefydliad.</p> <p>Defnyddio'r siart llif yn dangos y 'daith' ddiogelu.</p> <p>Gellir cofnodi syniadau cyfranogwyr yn adran 3.4 y llyfr gwaith.</p>

Amseru	Bwriad	Cynnwys a gweithgaredd	Adnoddau a chyfeiriadau at y llyfr gwaith
20 mun	<p>Gweithgaredd 11 Chwythu'r chwiban.</p> <p>Gweithgaredd 11a Hysbysu am amheumon a honiadau i sicrhau dealltwriaeth o'u rôl eu hunain a'r camau sydd angen eu cymryd</p>	<p>Dylid defnyddio'r gweithgaredd hwn ar gyfer dysgwyr sy'n gallu myfyrio neu ddysgu am eu swydd/rôl gyfredol.</p> <p>Gofynnwch y cwestiwn - Beth ddylech chi ei wneud os oes gennych chi achos rhesymol dros amau bod oedolyn neu blentyn yn wynebu risg o gael ei gam-drin, ei esgeuluso neu ei niweidio. Pwy fydddech chi'n ei hysbysu am hyn?</p> <p>Dylid defnyddio siartiau llif neu weithdrefnau/gofynion lleol.</p>	<p>Siartiau llif lleol o ar gyfer hysbysu.</p> <p>Amrywiaeth o senarios i'w trafod.</p> <p>Siart llif yn dangos y 'daith' ddiogelu.</p> <p>Gellir cofnodi hyn yn adrannau 3.1 a 3.3 y llyfr gwaith.</p>
20 munud dewisol	<p>Gweithgaredd 11b Senarios amgen / dewisol i sicrhau dealltwriaeth o'u rôl eu hunain a'r camau sydd angen eu cymryd.</p>	<p>Dyma weithgaredd amgen i'w ddefnyddio os nad oes gan y dysgwyr brofiad o ymarfer i gyfeirio ato. Ymarfer 'beth os' yn defnyddio senarios sy'n addas ar gyfer y grŵp dysgwyr a gellir eu defnyddio yn adran 2.1, 2.2, adran 3.1, 3.2, 3.3 a 3.6 yn y llyfr gwaith/asesiad. Y nod yw meddwl am amheumon priodol o gamdriniaeth ac esgeulustod a chymau gweithredu priodol. Gellir gwneud hyn mewn parau, mewn grwpiau neu fel grŵp cyfan.</p> <p>Dylid annog y cyfranogwyr i feddwl am sut i ymateb, beth fyddai disgwyl iddynt ei wneud a pha wybodaeth y dylent ei throsglwyddo a pham. Dylech gysylltu â'r ddyletswydd i hysbysu a'r siart llif sy'n dangos y 'daith' ddiogelu.</p> <p>Rhaid defnyddio dwy enghraifft o leiaf.</p> <p>Cwestiynau i'w gofyn:</p> <p>Ystyriwch y senarios a phenderfynwch</p> <ul style="list-style-type: none"> ● A oes achos rhesymol dros amau bod oedolyn neu blentyn yn wynebu risg? ● Beth sydd angen i chi ei wneud? ● Beth fydddech chi'n ei gofnodi? 	<p>Amrywiaeth o senarios i'w trafod (11b).</p> <p>Siart llif yn dangos y 'daith' ddiogelu.</p> <p><i>Gellir ei ddefnyddio yn adran 2.1, 2.2, adran 3.1, 3.2, 3.3 a 3.6 yn y llyfr gwaith / asesiad.</i></p>



Amseru	Bwriad	Cynnwys a gweithgaredd	Adnoddau a chyfeiriadau at y llyfr gwaith
10 mun	Cynllun gweithredu – lleihau'r risgiau.	<p>Gofynnir i bawb gofnodi un peth y maent wedi'i ddysgu ac y maent yn fwy ymwybodol ohono nawr ac un peth y maent yn bwriadu ei wneud er mwyn hyrwyddo diogelu yn eu rôl a'u lleoliad.</p> <p>Mae taflenni ar gael neu gellid defnyddio 'post-its' neu gwblhau'r gweithgaredd fel ymarfer myfyriol yn y llyfr gwaith, tudalen 16 (mae'r ymarfer yn gofyn am dri pheth). Dylid tynnu sylw at nodi anghenion dysgu pellach neu newidiadau sy'n gysylltiedig â Chodau Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol a <i>Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014</i>.</p>	<p>Cynllun gweithredu ar gyfer pawb sy'n cymryd rhan.</p> <p>Gellid cwblhau'r ymarfer myfyriol yn y llyfr gwaith, tudalen 16 (mae'r ymarfer yn gofyn am dri pheth).</p>
5 mun	Adolygu / gwerthuso.	<p>Mae'r grŵp yn adolygu deilliannau dysgu'r diwrnod a'r negeseuon allweddol ynghylch eu cyfrifoldebau i dynnu sylw at achosion a/ neu ddyletswydd i hysbysu ynghyd â sicrwydd a negeseuon clir ynglŷn â sut i gael gafael ar ragor o gymorth a gwybodaeth. Caiff ffurflenni gwerthuso/adborth eu llenwi a rhoddir cofnodion presenoldeb (gallant fod yn gyfnewid am gwblhau ffurflenni gwerthuso).</p>	<p>Sleid ar gamau hanfodol ffurflenni gwerthuso / adborth a chofnod llwyddiannau.</p>
5 mun	Gwybodaeth derfynol.	<p>Gwybodaeth ar gael am asesu, mapio'r Fframwaith a chwblhau'r llyfr gwaith, cymorth a chynghor ynghylch honiadau/amheuan neu faterion eraill a godwyd yn ystod yr hyfforddiant. Mae'n bosib y bydd dysgwyr am wybod mwy am y <i>Fframwaith sefydlu Cymru gyfan ar gyfer ieched a gofal cymdeithasol</i> a chymwysterau. Gellir dosbarthu taflen yn rhoi ffynonellau eraill o wybodaeth a dysgu ychwanegol ar gyfer diogelu. Cyfeiriwch at Hyb Gwybodaeth a Dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru yn gofalcymdeithasol.cymru/hyb/hafan</p>	<p>Cynllun gweithredu ar gyfer pawb sy'n cymryd rhan.</p> <p>Taflen adnoddau a gwybodaeth estynedig am ddiogelu.</p>
	Cyfanswm o 6 awr	Cinio ac egwyliau i'w hychwanegu.	